**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 7 Mawrth 2024 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd L A Tomkinson

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Smith

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Ms L Coughlan, Cyfreithiwr

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd R Yeo

**218 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**219 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn

nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**220 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**221 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 08.02.24 yn rhai cywir.

**222 NEWID I DREFN YR AGENDA**

**223 CAIS RHIF: 23/1169**

**Annedd ar wahân a gwaith uwchraddio ar y lôn fynediad. (Derbyniwyd Asesiad Risg Mwyngloddio ar 21/11/23) (Derbyniwyd y ffin llinell goch a'r cynlluniau diwygiedig ar 15/12/23) Y TIR Y TU ÔL I STRYD MILDRED, BEDDAU**

**PENDERFYNODD** Aelodau ohirio'r cais fel bod modd i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu arolygu'r safle i weld y mynediad fyddai, o bosibl, yn cael ei ledu.

Yng ngoleuni'r penderfyniad uchod, dywedodd y Cadeirydd wrth y sawl a oedd yn bresennol er mwyn annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais yma y byddai raid iddyn nhw wneud cais i annerch y Pwyllgor eto pan fyddai'r mater yn cael ei drafod, pe hoffen nhw wneud hynny.

**224 CAIS RHIF: 23/1125**

**Adfer y llety byw sydd ar y llawr cyntaf, uwchraddio a newid yr adeilad ac adeiladu estyniad (Derbyniwyd cynlluniau a disgrifiad diwygiedig ar 14/11/2023) (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 05/12/2023 a 16/02/2024) OLD YNYSYBWL INN, HEOL Y FELIN, YNYS-Y-BWL, PONTYPRIDD, CF37 3LS**

Amlinellodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan gymydog a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, newid i Amod 2 i'w gwneud hi'n ofynnol cadw'r sgrîn, a gafodd ei chymeradwyo, yn barhaol ar ôl hynny ac Amod 3 ychwanegol sy'n golygu y caiff ardal y balconi ei defnyddio at ddefnydd preswyl yn unig, nid mewn cysylltiad â'r dafarn.

(**Nodwch:** Ymunodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Dennis â'r cyfarfod yn ystod yr eitem yma felly ymatalodd rhag pleidleisio.)

**225 CAIS RHIF: 23/1244**

**Datblygu 18 annedd fforddiadwy, cyfleusterau parcio, tirlunio, draenio cynaliadwy a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig, sy'n cynnwys gosod paneli solar ar anheddau, ar 13 Rhagfyr 2023. Derbyniwyd y Cynllun Safle Diwygiedig, Manylion Tirlunio Meddal a Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, Manyleb Tirlunio a'r Cynllun Rheoli ar 14 Chwefror 2023) Y TIR I'R DWYRAIN O STRYD Y DWYRAIN, TYLORSTOWN, GLYNRHEDYNOG**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan nodi ei fod e'n cefnogi'r datblygiad arfaethedig wrth hefyd amlinellu rhai pryderon mewn perthynas â'r datblygiad.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau cytundeb adran 106 sy'n gofyn am y canlynol:

i) Sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal fel unedau fforddiadwy, a hynny at y diben parhaus o ddiwallu anghenion tai sydd wedi'u nodi yn yr ardal leol. Hefyd, mae'r nifer llai o leoedd parcio oddi ar y stryd, o'u cymharu â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar gyfer Mynediad, Cylchrediad a Pharcio, wedi cael ei ystyried yn dderbyniol ar y sail y dangosir bod preswylwyr tai cymdeithasol yn berchen ar lai o geir. ii) sicrhau cyfraniad hamdden oddi ar y safle gwerth £18,000 (£1,000 ar gyfer pob eiddo) ar gyfer gwella'r ardal chwarae bresennol ar Stryd Edmondes, yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar gyfer Rhwymedigaethau Cynllunio.

(**Nodwch:** Gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Dennis y cyfarfod yn ystod yr eitem yma o ganlyniad i broblemau technegol felly ni chymerodd ran yn y bleidlais na thrafodaeth unrhyw eitem arall ar agenda'r cyfarfod yma.)

**226 CAIS RHIF: 23/1277**

**Cyflawni amodau 7 (mesurau rheoli traffig) ac 8 (manylion draenio llawn) mewn perthynas â chais 23/0575/15 sydd eisoes wedi'i gymeradwyo (Amrywio amod 1 o gais 18/0617/15 (cais gwreiddiol: 13/0758/10 - Datblygiad preswyl, adeiladu 3 uned dai gysylltiedig â 3 ystafell wely). TIR GER 15 STRYD GROVER, GRAIG, PONTYPRIDD**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r drafodaeth ar y cais tan gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn rhoi rhagor o amser i Swyddogion Cynllunio i drafod cynnwys llythyr gwrthwynebu hwyr a ddaeth i law gan Ddŵr Cymru.

**227 CAIS RHIF: 23/1318**

**Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer newid defnydd arfaethedig o annedd C3(a) i Gartref Preswyl i Blant C2 ar gyfer hyd at 2 o blant. 142 STRYD KENRY, TONYPANDY, CF40 1DD**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 22 Chwefror 2024, pan wrthododd yr Aelodau roi'r dystysgrif cyfreithlondeb, a hynny'n groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod y cais yn groes i argymhelliad Swyddogion. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y dystysgrif cyfreithlondeb, a hynny'n groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, oherwydd y rhesymau sydd wedi'u nodi ar dudalennau 4 a 5 yr adroddiad pellach.

**228 CAIS RHIF: 23/1335/09**

**Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer newid defnydd arfaethedig o annedd C3(a) i Gartref Preswyl i Blant C2 ar gyfer hyd at 2 o blant, yn ogystal â 2 aelod o staff cymorth 24 awr y dydd, fydd yn gweithio sifftiau, a rheolwr cofrestredig. 134 HEOL TURBERVILLE, PORTH, CF39 0ND**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth, penderfynodd Aelodau wrthod rhoi tystysgrif cyfreithlondeb gan yr oedd Aelodau o'r farn y byddai'r newid arfaethedig yn cyfateb i newid defnydd sylweddol a byddai natur gweithrediad arfaethedig yr eiddo yn arwain at gynnydd o ran mynd a dod, a lefel o weithgarwch ac aflonyddwch sy'n fwy na'r hyn fyddai'n cael ei ystyried yn nodweddiadol ar gyfer annedd o'r fath; felly byddai'r newid defnydd yn sylweddol.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm dros ddod i benderfyniad o'r fath ar sail cynllun arfaethedig neu gynllun posibl.

**229 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd, Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 12/02/2024 – 23/02/2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**